# Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg

25 Ebrill 2013

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 28 Mawrth 2013, pan wnaethoch ofyn beth yw,

1. *Y cylch gorchwyl ar gyfer ymdrin â'r Ymchwiliad yn ymwneud â Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg - (Eitem 6 ar agenda cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2013 (Tudalennau 22-23) o bapurau'r cyfarfod.*
2. *A oes modd i chi hefyd roi gwybod y* ***Manylion llawn a'r Rhesymau*** *pam mae'r swm 'eithriadol' fawr o £100,000 wedi'i dalu gan Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd Draenio yn yr hydref y llynedd, 2012, i 'helpu i dalu/wrthbwyso Costau Ymchwiliad y Comisiwn Archwilio' - y corff y mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bellach yn ymchwilio ymhellach iddo ei hun? Siawns, os gwnaed y taliad mawr hwn gan y Cynulliad, bod pawb yn gwbl fodlon bod popeth wedi'i ymchwilio'n briodol a bod cytundeb arno?*
3. A oes modd i chi roi gwybod i mi a yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymwybodol o'r taliad arian mawr hwn o'r pwrs cyhoeddus? Hefyd, a awdurdododd y Pwyllgor y taliad eithriadol hwn? Fel corff statudol ymreolaethol, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn awr yn ymchwilio i'r mater ymhellach.

Cyn i mi ateb bob cwestiwn yn unigol, hoffwn sicrhau eich bod yn ymwybodol, ym mis Mai 2007, daeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym a daeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn endidau ar wahân yn gyfreithiol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Un o swyddogaethau allweddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod dulliau priodol a thrylwyr o graffu ar wariant Llywodraeth Cymru.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost / E-mail: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

Byddaf yn awr yn ateb pob cwestiwn yn ei dro.

1. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn wedi'i gyhoeddi ac mae modd ei weld drwy fynd i'r dudalen a ganlyn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5052&AIID=8648
2. Ni allwn ddarparu gwybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru ond gallwn drosglwyddo eich cais atynt os dymunwch. Nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi dechrau ar ei ymchwiliad i Fwrdd Draenio Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg hyd yma, ac nid oes tystiolaeth wedi cyrraedd i'w hystyried gan y Pwyllgor. O ganlyniad, nid yw'r wybodaeth yr ydych yn gwneud cais amdani yn ein meddiant.
3. Fel pwynt 2. uchod.

Os hoffech drafod rôl y Pwyllgor ymhellach, cysylltwch â Tom Jackson (Clerc y Pwyllgor) a fyddai'n fwy na bodlon eich cynorthwyo. Gallwch ei ffonio ar 029 2089 8597.

Os hoffech pe bawn i'n trosglwyddo'r cais hwn at y tîm Rhyddid Gwybodaeth yn Llywodraeth Cymru, oherwydd efallai eu bod hwy'n cadw'r wybodaeth rydych yn gwneud cais amdani, yna byddwn yn fodlon gwneud hynny.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**